

Cemiplimab ar gyfer trin carcinoma celloedd cennog croenol sy'n fetastatig neu'n ddatblygedig yn lleol

07 Awst 2019

Mae cemiplimab (Libtayo) ar gael drwy'r [Gronfa Cyffuriau Canser](#). Mae'n driniaeth bosibl, mewn oedolion, ar gyfer carcinoma celloedd cennog croenol:

- sydd wedi lledaenu i haenau dyfnach o groen, nodau lymff gerllaw neu rannau eraill o'r corff (datblygedig yn lleol neu fetastatig)
- na ellir defnyddio llawdriniaeth na radiotherapi i'w drin.

Mae mwy o dystiolaeth ar cemiplimab yn cael ei chasglu, hyd at fis Gorffennaf 2021. Ar ôl hyn, bydd NICE yn penderfynu a fydd yn argymhell y dylid ei ddefnyddio ar y GIG ac yn diweddarau'r canllawiau. Bydd ar gael drwy'r Gronfa Cyffuriau Canser tan hynny.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwranddo'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [gwefan y GIG](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Sefydliad Croen Prydain](#), 020 7391 6341
- [Melanoma UK](#), 0808 171 2455
- [Skcin – Elusen Canser y Croen Karen Clifford](#), 0115 9819 116
- [Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-3490-4